



Modiwl 3

Tachwedd 2022

Cwmpas amodol Modiwl 3 Cymraeg

Bydd y modiwl hwn yn ystyried effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn cynnwys ystyried canlyniadau gofal iechyd y ffordd yr ymatebodd y llywodraethau a'r cyhoedd i'r pandemig. Bydd yn archwilio capasiti systemau gofal iechyd i ymateb i bandemig a sut y datblygodd hyn yn ystod pandemig Covid-19. Bydd yn ystyried y sectorau a gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, eilaidd a thrydyddol a phrofiad pobl o ofal iechyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys drwy hanesion dangosol. Bydd hefyd yn archwilio anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (megis mewn perthynas â chyfraddau marwolaeth, cyfarpar diogelu personol ac ocsimetrau), gan roi ystyriaeth fanwl bellach mewn modiwl dynodedig ar wahân.

Yn benodol, bydd y modiwl hwn yn archwilio:

1. Effaith Covid-19 ar brofiad pobl o ofal iechyd.
2. Gwneud penderfyniadau craidd ac arweinyddiaeth o fewn systemau gofal iechyd yn ystod y pandemig.
3. Lefelau staffio a chapasiti gofal critigol, sefydlu a defnyddio ysbytai Nightingale a'r defnydd o ysbytai preifat.
4. Y gwasanaethau 111, 999 a gwasanaethau ambiwlans, meddygfeydd ac ysbytai a chydweithrediad trawstoriadol rhwng gwasanaethau.
5. Darpariaeth a thriniaeth gofal iechyd i gleifion sydd â Covid-19, ymateb systemau gofal iechyd i dreialon clinigol ac ymchwil yn ystod y pandemig.

Dyrannu staff ac adnoddau. Yr effaith ar y rhai yr oedd arnynt angen gofal am resymau heblaw am Covid-19. Ansawdd y driniaeth ar gyfer cleifion Covid-19 a chleifion nad oeddynt yn rhai Covid-19, oedi mewn triniaeth, rhestrau aros a phobl nad oeddent yn ceisio neu'n derbyn triniaeth. Gofal lliniarol. Rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

6. Gwneud penderfyniadau ynghylch natur y gofal iechyd oedd i'w ddarparu i gleifion â Covid-19, ei uwchgyfeirio a darpariaeth dadebru cardio-anadlol, gan gynnwys defnyddio cyfarwyddiadau Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR).
7. Effaith y pandemig ar feddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill, gan gynnwys ar y rhai dan hyfforddiant a grwpiau penodol o weithwyr gofal iechyd (er enghraifft drwy gyfeirio at gefndir ethnig). Argaeledd staff gofal iechyd. Gordal y GIG ar gyfer staff gofal iechyd nad ydynt yn dod o'r DU a'r penderfyniad i ddileu'r gordal.
8. Atal lledaeniad Covid-19 o fewn lleoliadau gofal iechyd, gan gynnwys rheoli heintiau, digonolrwydd cyfarpar diogelu personol a rheolau ynghylch ymweld â'r rhai sydd yn yr ysbyty.
9. Cyfathrebu â chleifion oedd â Covid-19 a'u hanwyliaid ynghylch cyflwr a thriniaeth cleifion, gan gynnwys trafodaethau am DNACPR.
10. Marwolaethau a achoswyd gan bandemig Covid-19, o ran niferoedd, dosbarthiad a chofnodi marwolaethau, gan gynnwys yr effaith ar grwpiau penodol o weithwyr gofal iechyd, er enghraifft drwy gyfeirio at gefndir ethnig a lleoliad daearyddol.

11. Gwarchod a'r effaith ar y rhai a oedd yn agored i niwed yn glinigol (gan gynnwys y rhai y cyfeirir atynt yn rhai "eithriadol o agored i niwed yn glinigol").
12. Pennu nodweddion a nodi Cyflwr Ôl-Covid (gan gynnwys y cyflwr y cyfeirir ato yn Covid hir) a'i diagnosis a'i drin.



© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit <https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3>

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This publication is available at <https://covid19.public-inquiry.uk/document/>

Any enquiries regarding this publication should be sent to us at contact@covid19.public-inquiry.uk